# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

**RHIF 120** **TACHWEDD** 1985




# CENHADON CASINEB

MAE'R FFRYNT GENEDLAETHOL (National Front) y mudiad asgell dde eithafol Prydeinig yn weithgar unwaith eto yng Nghaerdydd, ac am y tro cyntaf, hyd y gwyddys, yn ceisio recriwtio ymhlith cenedlaetholwyr Cymreig ifainc yng Nghaerdydd a'r cylch.

Dengys y dystiolaeth a ddaeth i law'r Dinesydd fod cangen newydd o'r Ffrynt Genedlaethol wedi'i sefydlu'n ddiweddar yng Nghaerdydd a bod taflenni dwyieithog arbennig wedi'u paratoi gogyfer â'u dosbarthu ar strydoedd y Brifddinas. Mae'r daflen, a atgynhyrchir isod, yn dangos yn glir sut yr annelir y neges yn neilltuol tuag at genedlaetholwyr yn y gobaith na fyddant yn gallu sylweddoli'r gwahaniaethau sylfaenol sy'n gwahanu cenedlaetholdeb a ffasgaeth.

Mae geiriad a chyflwyniad y daflen yn wahanol i'r hyn a ddisgwylir gan ffasgwyr eithafol y Ffrynt Genedlaethol - does dim sôn ynddo am bobl o gefndiroedd ethnig arall nac am eu hanfon oddiyma i wledydd y trydydd byd. Annelir y neges yn hytrcah tuag at pobl sy'n poeni am Gymru a'i hiaith a'i diwylliant. Dywed nad yw'r Ffrynt Genedlaethol yn blaid sy'n perthyn i'r chwith neu'r dde, ond ei fod yn "blaid newydd ac ifanc sy'n sefyll dros pob diwylliant a thraddodiad o'r bobl Brydeinig". Ond mewn gwirionedd dyw'r Ffrynt Genedlaethol yn ddim amgen na charfan fechan o Ffasgwyr sy'n defnyddio ofnau a phryderon yr ifainc i'w dibenion atgas eu hunain.



## PWY SY'N SIARAD DROS Y CYMRU ?

Trwy'r canrifoedd mae Cymru wedi cael ei hanwybyddu, ei thrin fel un ardal o Loegr. Trwy'r canrifoedd mae'r hen iath a'i diwylliant wedi cael ei llethu a'i gwrthod.

Ond mae Cymru wedi para i fyw! Hwyrach mae hamddiffynwyr hi ar brydiau wedi bod yn brin, ond mae'r traddodiadau'n tadau'n yn fyw o hyd – mae'r ysbryd Cymreig yn parhau yn nerthol.

Nid yw'n ddigon da i'n diwlliant cael ei gloi i fyni mewn rhai dosbarthau neill-tuol. Mae'n wir nid yw'r llanw yn dechrau troi, 'na'r iaith a'r hen draddodiadau yn ennill rhagor o parch y dyddiau hyn, a mae hyn yn gryfhau'r pwysicrwydd o gwneud llawer fwy i sicrhau dyfodol diwylliant Cymru.

Be mae'r hen bleidiau gen i gynnig? Dim byd o gwbwl! Mae'r Blaid Lafur, y Blaid Ryddfrydol a'r Blaid Geidwadol yn meddwl yn unig am ein gwlad a'i phobl fel pwll o bleidleiswyr. Be sy'n waeth ydi'r ffaith nad yw ei polisiau nhw – ei comiwnyddiaeth a'i cyfalafiaeth – yn ddiwerth i bobloedd Cymru.

Mae'r Ffrynt Cenedlaethol yn blaid newydd ac ifanc, sy'n sefyll dros pob diwlliant a thraddodiad o'r bobl Brydeinig. Mae'n blaid cenedlaethol a radigl, yn erbyn comiwnyddiaeth a chyfalafiaeth.

Mae'r Ffrynt Cenedlaethol yn blaid sydd ddim i'r chwith, neu'r dde, neu'r canol hyd yn oed: nid yw'n sefyll am rwyster ond am unoliaeth: dim am bleidiau ond am y bobl. Dyna pam mae'r Ffrynt Cenedlaethol yn siarad dros ni!

GWEITHWYR A CHI SY'N DI-WAITH! **Mae ein polisiau economegol cyd-weithredol ni'n eich diddordeb chwi.**

FFERMWYR! **Mae diwigiad tir ni, trwy ddosbarthu yn eich diddordeb chwi.**

RHIENI! **Mae cyfnogaeth ni'r teulu yn helpu eich ymdrechion.**

POBLOEDD CYMRU! **Mae eich cenedlautholdeb chwi yr un fath a ni.**

YMUNWCH A'R FFRYNT CENEDLAETHOL YN AWR!

**Mae'r Ffrynt Cenedlaethol yn sefyll dros bawb o bobloedd Prydain, yn mynuu cael cyfiawnder, unfathiant cywir a bywyd cenedlaethol i ni gyd.**

**Am fwy gwybodaeth neu rhagor o pamffledi, anfonwch 50p i 50 Pawsons Road, Croydon, Surrey CRO 2QF.**

**Bydd unrhiw rhoddiad yn cael ei derbyn efo pob diolchgarwch**

**Enw** ..........

**Cyferiad** ..........

Yn ogystal â'r daflen, cafwyd hyd i ragor o dytiolaeth am weithgarwch y Ffrynt Genedlaethol mewn cyhoeddiadau eraill o'i heiddo. Yn rhifyn mis Medi o'r papur "National Front News" ceir yr adroddiad canlynol:

> "THE inaugural meeting of Cardiff National Front went ahead very smoothly with about 20 people present. The enthusiasm shown was very encouraging and there seems little doubt but that Cardiff NF is well and truly launched. Initial activities will include mass leafletting with our main national leaflets and also with a specially produced bilingual leaflet. Supplies of posters and stickers have also been taken and we have been promised at least a minibus load of supporters for our annual Rememberance Day Parade - the first time we have had such a Welsh contingent for a very long time, if ever."

Mae'n gwbl amlwg mai ychydig iawn o aelodau sy' gan y Ffrynt Genedlaethol hyd yma, ac nid oes unrhyw dystiolaeth eu bod yn llwyddo yr yr ardal. Ni welwyd yng Nghaerdydd y math o ymosodiadau hiliol ar aelodau cymunedau lleiafrifol a ddaeth yn gyffredin yn ninasoedd Lloegr - yr arwydd arferol o fodolaeth y Ffrynt Genedlaethol.

Ceir arwyddion pellach o "gonsarn" y Ffrynt Genedlaethol â phroblemau Cymru mewn cylchgrawn arall o eiddo'r ffasgwyr, "Nationalism Today". Yn rhifyn mis Medi ceir adroddiad o dan y pennawd "Race Board Bashes Welsh Language" am ddyfarniad y Tribiwnlys Diwydiannol ym Mae Colwyn, pryd y dyfarnwyd bod Cyngor Sir Gwynedd yn euog o wahaniaethu ar sail hil wrth beidio â phennodi dwy fenyw ddi-Gymraeg i swyddi yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol am nad oeddynt yn siarad Cymraeg.

Mae'r erthygl, yn groes i'r disgwyl efallai, yn gefnogol i safbwynt Cyngor Gwynedd, ac i'r iaith Gymareg: "They have also pursued a commendable policy of trying to preserve and promote Welsh, the oldest living language in Europe and a vital part of Britain's heritage". Ond nid oherwydd unrhyw bryder am ddyfodol na

Parhad ar dudalen 3

## TU MEWN:



| | |
|---|---|
| Dim ysgol newydd | Tud.3 |
| O'r post | Tud.4 |
| Curiad Calon Cymru | Tud.9 |
| Crafu Cefn | Tud.11 |

# GOLYGYDDOL

Un o uchafbwyntiau cynhadledd Plaid Cymru yng Nghaergybi oedd araith fer ond grymus cyn-ymgeisydd seneddol Canol Caerdydd, Paul Morgan yn ystod y drafodaeth ar Dde Affrica.

Soniodd am ei yrfa ef fel chwaraewr rygbi yng Nghaerdydd, a'i gariad at y gêm honno. Aeth ymlaen wedyn i feirniadu'n hallt Undeb Rygbi Cymru a'r chwaraewyr Cymreig gor-freintiedig hynny sy'n cadw cysylltiad ag Apartheid ac yn cynnig cysur i'r gyfundrefn hiliol honno.

Galwodd ar i chwaraewyr eraill sy'n ffieiddio wrth Apartheid i ffurfio'n fudiad i fynegi eu gwrthwynebiad at agwedd wrthun yr Undeb Rygbi.

Ni ellir coleddu bellach y myth hoff ein bod ni'r Cymry Cymraeg yn deall problemau ein brodyr a'n chwiorydd duon yn Ne Affrica. Mae sawl un o'r chwaraewyr a aeth i'r wlad honno yn ddiweddar wedi bod yn Gyymry Cymraeg, ac wrth wrando ar rai o'n cyd-wladwyr yn siarad, gellid credu mai'r Afrikaaner yw'r un y dylid cymharu ei gyflwr â chyflwr y Cymro Cymraeg. Dengys yr erthygl ar dudalen flaen y dinesydd y mis hwn pa mor gysurus hawdd y gall rhethreg hiliaeth sleifio i mewn i syniadaeth gwleidyddiaeth genedlaethol Gymraeg, a bachu ei geirfa i'w dibenion ei hun.

Rhaid i ni fod yn gyson wyliadwrus. Ni allwn adael i'n treftadaeth Gristnogol ddyngarol gael ei llurgunio yn y fath fodd. Dilynwn esiampl Paul Morgan. Torrwn oll fel unigolion ein cysylltiadau â ffasgaeth ffiaidd Pretoria. Gwrthodwn â phrynu nwyddau De Affrica, pwyswn ar y llywodraeth i ddad-fuddsoddi, pwyswn ar ein Hundeb Rygbi a'n Heisteddfodau i dorri eu cysylltiadau â'r gyfundrefn afiach, a chadwn draw o Langollen a Pharc yı Arfau.




DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Rhagfyr at: Shân Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn TACHWEDD 21.

DIOLCH AM gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.



# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr Y Dinesydd at:
Lynn Jones Ffon: 562816

TACHWEDD

3 - Y Twr Trafoli
Clwb Ifor Bach 8.00
Trip i Drefeca
Manylion gan Sian: 397901.

6 - Cymdeithas Minny Street
Y Dr.Glyn Jones

7 - Darlith Goffa G.J.Williams
"Patrymau Rhyddiaith" gan Islwyn Ffowc Elis.
Adeilad y Dyniolaethau, Coleg y Brifysgol 5.30

8 - Clwb Ifor Bach
Geraint Jarman a'r Cymganeddwyr

9 - Clwb Ifor Bach
Steve Eaves a'r Band

10 - Capel Derwen Deg, Llysfaen
Oedfa Anenwadol 4.00
Y Parch.Dafydd Owen

11 - Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd
Arena, Theatr y Sherman 8.00
"Ar y ffiniau"
Yr Athro Robin Williams
Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

11 - Merched y Wawr
Festri Capel Minny Street
Yoga - Valmai Evans

15 - Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd
Noson y Boneddigesau
Ystafell y Canmlwyddiant, Parc yr Arfau. 7.00 ar gyfer 7.30.
Gwr Gwadd: Y Gwir Barchedig George Noakes, Esgob Tŷ Ddewi.

16 - Clwb Ifor Bach
Ffenestri

17 - Y Twr Trafoli
Clwb Ifor Bach 8.00
"Ffydd Mewn Gwyddoniaeth"

20 - Cymdeithas Minny Street
Cymdeithas Tabernacl yn ymweld

22 - Cylch Cinio'r Barri
Noson y Gwragedd
Gwestai: Mrs.Rebecca Powell

22 - Clwb Ifor Bach
Noson dan ofal y Mudiad Gwrth-Aparteid gyda nifer o grwpiau ac artistiaid Cymraeg

23 - Clwb Ifor Bach
Ray Jones a'r Band

25 - Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd
Clwb Ifor Bach 8.00
"Adeiladwaith Anhrefn" -
Dr.Alan Shore, Prifysgol Caerfaddon.

30 - Clwb Ifor Bach
Maraca

RHAGFYR

1 - Y Twr Trafoli
Clwb Ifor Bach 8.00
Addoli trwy gelfyddyd

6 - Cymrodorion Caerdydd
Festri Dewi Sant
Rhaglen yng ngofal y Parch. Hugh Matthews. Cadeirydd: y Parch. D.A.Bowen

7 - Clwb Ifor Bach
Dafydd Iwan

8 - Capel Derwen Deg, Llysfaen
Oedfa Anenwadol 4.00
Y Parch. Raymond Williams

9 - Merched y Wawr
Festri Capel Minny Street
Coginio Nadolig - Sian Eleri Davies a Nia George

15 - Y Twr Trafoli
Clwb Ifor Bach 8.00
Cardiau a charolau Nadolig

GWAHODDIAD I GYFRANNU

Os hoffech gynorthwyo'r Dinesydd mewn unrhyw fodd - ysgrifennu, tynnu lluniau, dosbarthu, casglu hysbysebion neu beth bynnag, mae yna groeso twyngalon yn eich disgwyl ymhlith rhengoedd y ffyddloniaid sy'n gyfrifol am roi'r papur at ei gilydd.

Os oes gennych syniadau am sut i wella'r Dinesydd neu ddiddoredeb mewn paratoi papur ar gyfer y wasg ymunwch a ni. Ni chynnigir unrhyw dal na threuliau - ond gallwn gynnig gwaith caled a llawer o hwyl. Beth amdani? Os oes diddordeb gennych cysylltwch a Shan Emlyn, 3 Llandennis Ave., Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD.

## ***CYSTADLEUAETH***



BLE MAE'R adeilad yma a beth ydyw? Os hoffech ennill wobr rhyfeddol anfonwch eich atebion ynghyd a'ch enw a'ch cyfeiriad i'r Dinesydd erbyn Tachwedd 21.

Parhad o dudalen 1

chefnogaeth gwirioneddol i'r iaith Gymraeg y gwneir hyn, ond yn hytrach er mwyn ymosod ar y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (C.R.E.) a gefnogodd achos y ddwy fenyw, a lledu neges hiliaeth gwenwynllyd.

Unieithir penderfyniad y C.R.E. i ymyrryd yn yr achos hwn a'r hyn a welir fel ymosodiadau'r Comisiwn ar hawliau'r "Prydeinwyr brodorol". Mae gweithgarwch y Comisiwn ac amlhiliaeth, meddai'r Ffrynt Genedlaethol yn bygwth nid yn unig iaith a diwylliant Lloegr, ond holl ieithoedd a diwylliannau brodorol Prydain.

## Race Board Bashes Welsh Language

THE RACE BOARD struck a blow against the preservation of the Welsh language on July 19th when an industrial tribunal ruled that Gwynedd's bilingual policy "racially discriminated" against people who do not speak Welsh.

The Commission for Racial Equality had backed the claims of two Welsh women who had been refused jobs in Anglesey old folks' homes because they couldn't speak their own language. Since many old people in North Wales are native-Welsh speakers – some speak almost no English – the Council understandably required those wanting to care for them to be able to speak Welsh too. They also have pursued a commendable policy of trying to preserve and promote Welsh, the oldest living language in Europe and a vital part of Britain's heritage.

But the Race Board didn't agree, and persuaded the Gelwyn Bay Industrial Tribunal to rule that Welsh people trying to preserve their own language was "racially discriminatory" and so illegal. One of the women they backed, Mrs Phyllis Jones was awarded £350 damages for "hurt feelings" and the Tribunal has warned Gwnedd Council that if the two women are not found jobs within three months it will "reconvene". This decision has also totally undermined the Council's policy of preferring to emply Welsh people who can speak their own language, and will further imperil the language's prospects for survival.

The Commission for Racial Equality's action should come as no surprise to British Nationalists, who have always known it was anti-British. We are not surprised that the Race Board should encourage Immigrants to preserve their own languages and cultures, and even demand that British children be taught Gujerati and Urdu, whilst actively discouraging Britons from preserving our languages and cultures. The real aim of the Race Board has always been to destroy our race, nations and cultures, which is why it prefers the mumblings of foreigners who have dwelt amongst us less that 30 years to a tongue which has been spoken in our land for over 1500; and why it prefers social security leaflets in Punjabi to the poems of Taliesin and the songs of the Bards.

But perhaps this will wake up Welsh patriots many of whom have backed the trendy liberal "anti-racist" Plaid Cymru, which has always sycophantically supported the Race Board. For this must drive home the fact that multiracialism and the Race Board don't just threaten the English language, culture and way of life. They threaten all the native peoples, cultures and languages of these islands, Welsh, Gaelic and Cornish as much as English. Only by fighting together can the peoples of Britain each attain cultural fulfillment and national freedom.

Arwydd pellach o ddiddordeb y Ffrynt yng Nghymru yw'r llyfrau sydd ar gael oddi wrth y Ffrynt Genedlaethol. Mewn hysbyseb gwelir "To Dream of Freedom", Roy Clews a "The ABC of the Welsh Revolution" gan Derrick Hearne, a gyhoeddir gan Y Lolfa, ochr yn ochr â maniffesto etholiadol y Ffrynt.

Mae'r agwedd yma tuag at Gymru yn rhan o'r broses o newid delwedd y Ffrynt Genedlaethol. Yr amcan yw lledaenu delwedd y mudiad trwy ddangos consarn am broblemau gwahanol garfannau o gymdeithas. Cynnigir cyngor a chymorth i'r di-waith ac fe'u hannogir i ffurfio mentaru cydweithredol: "Workers Co-ops = White Power!" Ond newid delwedd ydyw, dim mwy. Mae'r neges yr un.

# TROI CLUST FYDDAR

NI SEFYDLIR Ysgol Uwchradd Ddwyieithog newydd yn Ne Morgannwg. Dyna oedd penderfyniad nid annisgwyl Awdurdod Addysg De Morgannwg pan gyfarfu ar Hydref 21.

Gwrthodwyd awgrym y Prifathro, Malcolm Thomas, a'r Pwyllgor Rhieni, o ehangu'r ysgol trwy adeiladu ar y safle presennol yn ogystal ag argymhelliad Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i sefydlu ysgol newydd ym Mro Morgannwg. Penderfynwyd yn hytrach i dderbyn argymhelliad Gweithgor Cymraeg yr awdurdod i wasgaru disgyblion Ysgol Gyfun Glantaf rhwng dwy safle.

Yn ôl ystadegau'r awdurdod disgwylir i'r nifer o ddisgyblion sy'n dyuno derbyn addysg yng Nglantaf i godi o'r 959 presennol i 1,231 erbyn 1992. Ac o ystyried sefyllfa ariannol Cyngor Sir De Morgannwg yr unig ffordd o ateb y galw fydd defnyddio adeiladau hen ysgol Waterhall, yn y Tyllgoed, sydd ar hyn o bryd yn rhan o Ysgol Gyfun Cantonian.

O fis Medi 1986 ymlaen bydd disgyblion dosbarthiadau isaf Glantaf yn derbyn eu haddysg ddwy filltir i ffwrdd yn y Tyllgoed, ond ychwanegwyd mai fel trefniant dros dro yn unig y dylid ystyried hyn.

Ond ofn y rhieni yw y bydd y trefniant dros dro yn datblygu'n un barhaol. Dywedodd Bob Roberts, aelod o Bwyllgor Rhieni Glantaf nad oedd yn derbyn nad oedd yn bosibl i gadw'r ysgol ar un safle trwy ymestyn yr adeiladau presennol. "Mae'n rhaid inni dderbyn y penderfyniad, ond mae gen i ofn mai dros dro am byth fydd hi. Dyw rhannu ysgol yn ddwy fel hyn ddim yn beth da o ochr addysg nag ochr gweinyddiaeth yr ysgol o gwbl."

Un o ganlyniadau'r penderfyniad yw y bydd Ysgol Cantonian yn awr yn gallu dysgu'r holl disgyblion ar un campws - datblygiad llesol yn ôl y Prifathro John Isaacs, a ddywedodd yn ddiweddar fod addysg yn yr ysgol yn dioddef oherwydd yr angen i symud disgyblion ac athrawon o safle i safle.



Wedi'i siomi ... Malcolm Thomas, Prifathro Glantaf.

Mae'r cynllun hefyd wedi'i wrthod gan bwyllgorau rhieni ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd ac hefyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Daeth y penderfyniad yn union wedi i'r Gymdeithas yn Ne Morgannwg gyhoeddi arolwg o'r Gymraeg mewn addysg yn Ne Morgannwg yn dwyn y teitl "Yr Unfed Awr ar Ddeg".

Yn ogystal â thynnu sylw at yr angen am Gorff Datblygu Addysg Gymraeg i dynnu ynghyd yr holl ymdrechion ym myd addysg Gymraeg, galwodd yr adroddiad am greu polisi iaith newydd yn Ne Morgannwg. Geilw ar yr awdurdod addysg i dderbyn y dylai addysg Gymraeg fod o fewn cyrraedd rhesymol i bob plentyn sy'n ei ddymuno, a phwysleisia'r angen am gynllunio ymlaen llaw ar gyfer addysg Gymraeg yn y Sir.

Y diffyg cynllunio yma sydd wedi arwain at argyfwng presennol Glantaf, ac oni cheir newid polisi yn fuan, gwelir yr un problemau yn codi eto maes law. Un arall o argymhellion y Gymdeithas a allai gael ei weithredu ar unwaith yw'r alwad am sefydlu pump o ysgolion cynradd Cymraeg newydd o fewn y dair mlynedd nesa.

# PWY A SAIF YN Y BWLCH?

AM YR EILDRO eleni mai un o brif swyddi'r byd darlledu Cymreig yn wag. Yn dilyn pennodiad Geraint Stanley Jones i fwrdd rheoli'r BBC yn Llundain, lle bydd yn gyfrifol am ddarllediadau gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys rhaglenni addysgiadol a chrefyddol, y rhanbarthau a'r "rhanbarthau cenedlaethol" fel y'i gelwir, mae'r gorfforaeth yn chwilio am reolwr newydd yng Nghymru.

O'r eiliad y cyhoeddwyd ymadawiad Geraint Stanley Jones bu cryn ddyfalu ynglŷn â'i olynydd. Os mai oddi mewn i'r BBC y daw yna mae'n rhaid mai Geraint Price, y Pennaeth Rhaglenni, yw'r ffefryn. Ar y ddwy achlysur ddiwethaf penodwyd y Pennaeth Rhaglenni i olynu Rheolwr. Pennaeth Rhaglenni oedd Owen Edwards pan olynodd John Rowley, ac felly hefyd Geraint Stanley Jones pan olynodd Owen Edwards. Mae traddodiad ac arfer - dwy ystyriaeth bwysig ym meddwl corfforiaethol y BBC - yn gryf o'i blaid.

Ymhlith yr enwau eraill oddi mewn i'r gorfforaeth mae Teleri Bevan, yr is-bennaeth rhaglenni, John Stuart Roberts, y pennaeth adran mwyaf profiadol o fewn BBC Cymru a Dick Lewis, pennaeth yr adran rhaglenni cyffredinol. Enw arall a fyddai yn y ras, hyd at ei symudiad diweddar i Ogledd Iwerddon yw eiddo Arwel Ellis Owen, ond credir ei fod yn rhy gynnar eto iddo ddangos awydd i adael ei swydd newydd.

O'r tu allan i'r gorfforaeth dim ond dau geffyl sydd yn y ras. Euryn Ogwen Williams, Pennaeth Rhaglenni S4C, a Geraint Talfan Davies, Pennaeth Adran Newyddion a Materion Cyfoes HTV. Mae gan y ddau brofiad helaeth o deledu masnachol - cymhwyster a allai fod yn allweddol wrth i'r BBC wynebu cyfnod newydd yn ei hanes. Byddai penodi un o'r ddau yma hefyd yn gadael swyddi allweddol eraill i'w llenwi yn y sefydliad darlledu.

Cynhelir y cyfweliadau yn ystod yr wythnosau nesaf a disgwylir penodiad cyn diwedd y mis.

# LLYTHYRAU

Annwyl Dinesydd,
Sgwn i beth yw'r ymadrodd Cymraeg am "silly season" - yr adegau yng nghanol haf gan amlaf, pan fo'n rhaid llanw gydag eitemau gan nad oes newyddion ar gael. Yn amlwg mae'r "silly season" hyd yn oed yn cyrraedd tudalenau'r Dinesydd i'r fath raddau nes bo sgwrs uwchben peint yng Nghlwb Rygbi Pentyrch un noson ym mis Gorffennaf yn hawlio naw paragraff yn rhifyn mis Medi.

Yn aml fe geir stori reit flasus drwy gorddi'r cachu a'n wir fe'n corddwyd ym Mhenturk ar y noson honno, gyda nifer o fechgyn clwb rygbi, gan gynnwys cyn-hyfforddwr, yn codi i abwyd pryfocio Rhodri Gwyn. Wrth gwrs, fe ddewisodd yr hunan-gyfiawn Mr.Gwyn anwybyddu'r ffaith fod ei annwyl glwb peldroed y Cymric yn cynnwys, ymhlith yr holl ogleddwyr pubr, gloyw eu Cymraeg, ambell ddihiryn estron (o'r tu allan i'r Fro Gymraeg beth bynnag) nad ydynt yn medru iaith y nefoedd. Yr argian fawr, be nesa? Twix yn cael ei orfodi i ymddiswyddo gan fod acen cocni ar ei Gymraeg?

Beth bynnag, y tro nesa daw ymwelydd o Kenya, dyweder, i'r Brifddinas i weithio am ychydig fisoedd bydd bois clwb rygbi wedi dysgu gwers gan fechgyn y Cymric a dweud wrtho am geisio gem gan Canton (neu CIACs hwyrach) er nad yw e'n medru Cymraeg. O leia roedd hogia rygbi Cnarfon yn ddigon clen llynedd i roi croeso Cymreig os nad Cymraeg i Dai Kenya, beth bynnag oedd lliw ei groen e a natur ei iaith.

Yn gywir
Gareth Charles.

---

182 Heol Caerdydd
Llandaf

Annwyl Dinesydd
Mae'n ofid mawr gweld colofnau'r Dinesydd yn cael eu defnyddio i Gymry Cymraeg Caerdydd saethu bwledi snichlyd at ei gilydd. Bellach mae'r Taffia'n troi'n Maffia.

Mae gweld ensyniadau dienw am weithredoedd a sefyllfaoedd ein cyd-Gymry yn ddigon i godi cyfog yn enwedig o sylwi bod y fath gyhuddiadau pigog yn ymylu ar hawliau unigolion i benderfynu drostynt eu hunain. Mae gan bawb ohonom yr hawl i feddwl ac i benderfynu ac mae rhyddid fe hyn yn gymaint rhan o fywyd Cymry Cymraeg ag y mae i bobloedd eraill lle bynnag y bont. Oni chedwir y rhyddid sylfaenol hwn fe'n cawn ein hunain yn byw dan gysgodion cyntaf unbenaethol a ffasgaidd.

Rhaid i ni gytuno i anghytuno gan gofio na ddaw perswad mewn unrhyw ddadl drwy yrru pytiau o surni maleisus dan gochl "clecs". Gobeithio na fydd ymddygiad o'r math yn aros yn ein tir ac y cawn ni weld Y Dinesydd yn cael ei ddosbarthu ymhob cwr a chornel a hynny'n ddigywilydd.

Yn gywir iawn
Wynne Lloyd

---

5 Maes yr Awel
Radyr

Annwyl Dinesydd,
Yng nghyfarfod blynyddol Cymrodorion Caerdydd eleni, mynegodd y gymdeithas ei gwerthfawrogiad o'r hysbysebion o'i chyfarfodydd a ymddangosodd yng Nghalendr y Dinesydd yn ystod tymor '84-'85. Gofynwyd i mi, fel Trysorydd, anfon y siec amgaedig am £10 i gydnabod ein dyled ac i ddiolch am eich caredigrwydd.

Diolch eto, a phob dymuniad da i'r Dinesydd.

Yn ddiffuant,
Glyn Owen.

6 Heol Wen
Rhiwbeina

Annwyl Dinesydd,
Hoffwn i ar ran Mudiad Ysgolion Meithrin fynegi fy niolch mwyaf diffuant i bawb gefnogodd fy ymdrech i godi arian tuag at y Mudiad drwy fy noddi pan redais o gwmpas Llyn Tegid yn ras Mini Marathon yr Urdd ym mis Mehefin.

Yng Nghyfarfod Blynyddol y Mudiad yn y Rhondda ar ddydd Sadwrn 12 Hydref datgelwyd y swm a godwyd, sef £4,627. Can ddiolch unwaith eto am y fath gefnogaeth. Roedd gwir angen yr arian er mwyn hybu'r gwaith holl bwysig o sicrhau addysg feithrin Gymraeg i bawb a'i myn a hefyd i ymestyn einioes yr iaith.

Gwilym E.Roberts
Cyn-Gadeirydd Cenedlaethol
Mudiad Ysgolion Meithrin

---

22 Heol Ninian
Caerdydd

Annwyl Dinesydd,
Mi fydd Cyngor y Dysgwyr yng Nghaerdydd yn cynnal Boreau Coffi bob bore Iau o 9.30 tan 11.30. Fe'u cynhelir yn 11 Lochaber Street, Y Rhath. Mae yna groeso i bawb, a chroeso i rieni ddod â'u plant (fe fydd meithrinfa).

Yn gywir
D.Grehan

---

## CAN I GYMRU 86

Mae BBC Cymru yn chwilio am "Cân i Gymru" ar gyfer 1986. Yn wobr ceir £500 gyda'r caneuon gorau yn cael eu perfformio mewn rhaglen deledu a welir ar S4C ac a ddarlledir ar Radio Cymru o gwmpas Gwyl Ddewi.

Gofynnir am eiriau ac alaw wreiddiol - heb eu cyhoeddi na'u perfformio o'r blaen. gallant fod o waith unigolyn neu'n gywaith, a bydd yn rhaid i'r cyfansoddiadau fod mewn llaw erbyn 17 Ionawr, ar ffurf caset.

Dylid anfon y ceisiadau, neu geisiadau am unrhyw wybodaeth bellach, at:

"Can i Gymru 1986"
BBC
Llandaf
Caerdydd
CF5 2YQ

SIOE 'DOLIG
CANOLFAN YR URDD

Dydd Sadwrn 14 Rhagfyr 11.00 o'r gloch
Gyda Siwan Jones a'i ffrindiau
Addas i blant cynradd

Mynediad 50c
yn cynnwys ymweld â Sion Corn


TAFLEN

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn)

CYFAMODIR POB ELW I
GANOLFAN YR URDD CAERDYDD


# O'R GANOLFAN



Huw Eurig, Arweinydd yr Uwch Adran, yn cyflwyno tlws yr Aelwyd i Rhodri Jones, ennillydd y gystadleuaeth Snwcer eleni.

CANOLFAN YR URDD
RHAGLEN WYTHNOSOL


| | |
|---|---|
| Nos Lun: | Dosbarthiadau Cymraeg i oedolion |
| Nos Fawrth: | Uwch Adran 12 - 14 oed<br>Côr Cerdd Dant<br>Dosbarth Wlpan |
| Nos Fercher: | Dosbarthiadau Cymraeg i oedolion |
| Nos Iau: | Cwmni Dawns<br>Côr y Ganolfan<br>Dosbarthiadau Cymraeg |
| Nos Wener: | Aelwyd 15 oed i fyny |

DYMA FRASLUN o'r hyn sy'n digwydd yng Nghanolfan yr Urdd eleni. Cynigir llu o weithgareddau ar gyfer y bobl ifainc sydd yn mynychu'r Uwch Adran i'r Aelwyd, snwcer, pŵl, tenis bwrdd, dartiau, pêl droed, pêl foli, hoci a badminton, hefyd trefnir discos, chwaraeon, gemau a theithiau megis sglefrio, beicio, dringo, hwylio, canwio, ogofi ac yn y blaen.


A ydych yn priodi eleni?
Ffotograffiaeth Creadigol gan
GWENAN
CAERDYDD 732233
Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.



Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367

# Dewch i ail godi'r to

MAE'R GWAITH o ail-adeiladu'r Nant yn mynd yn ei flaen ac mae'r diolch i lawer ohonoch chi ddarllenwyr y Dinesydd, sy'n cyfrannu'n gyson i'n coffrau, ac i lawer iawn o bobl dros Gymru gyfan sy wedi dangos cefnogaeth ymarferol i'r cynllun dros y blynyddoedd. Mae'r cynllun o noddi tŷ yn y Nant wedi bod yn llwyddiannus iawn. Prawf o hyn yw Tŷ Dwyfor, Aelhaearn, Tŷ'r Faner Treforgan, a Tŷ Rhuthin, ac wrth gwrs, mae Merched y Wawr wrthi ar hyn o bryd yn noddi tŷ.

Mae'n ddiddorol iawn bod canran uchel iawn o'r dysgwyr sy wedi bod yn y Nant ar



gyrsiau eleni yn dod o'r De Ddwyrain, sy'n profi gymaint yw'r diddordeb mewn dysgu Cymraeg i oedolion o hyd. Llwyddodd tref fach fel Rhuthin i godi £7,800 mewn cyfnod byr. Oni ddylai targed o'r fath fod y hawdd iawn i'w gyrraedd yma yng Nghaerdydd? Awgrymodd rhai gweithwyr dygn pwyllgor cyllid Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd y dylid mynd ati i geisio noddi tŷ Caerdydd yn syth ar ol cwblhau'r dasg o sicrhau llwyddiant ariannol y 'Steddfod. Syniad gwych a chredaf taw nawr yw'r amser i ddechrau ar y gwaith. Tybed a fyddai modd cael grwp o bobl at ei gilydd yn weddol fuan i ddechrau ar y gwaith. Fe gododdd Mr Gwilym Roberts y swm anhygoel o £4,600 ar ben ei hun i'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn ddiweddar. Os felly, rwy'n siwr y byddai grwp gweithgar o bobl yn llwyddo i godi £8,000 i'r Nant yn weddol ddi-ffwdan.

Byddwn yn ddiolchgar iawn i glywed oddiwrth unrhywun a fyddai'n fodlon helpu gyda'r dasg hon. Ffoniwch fi ar Gaerdydd 754559, neu anfonwch air. Fy mwriad yw galw pawb sy'n dangos diddordeb at ei gilydd yn fuan i drafod cynlluniau'n fwy manwl. Diolch am eich cefnogaeth.

John Albert Evans
Cadeirydd
Ymddiriedolaeth Nantgwrtheyrn.

# LLONGYFARCH

LLONGYFARCHIADAU I MARI OWEN, ar ei phenodiad yn Swyddog Gwerthu Rhaglenni i S4C. Bydd yn gweithio i Mentrau - cwmni masnachol S4C - a'i dyletswydd fydd hybu gwerthuiant rhaglenni'r Sianel y tu allan i Gymru.

Mae Mari, sy'n 27 mlwydd oed, yn enedigol o Fangor, ac fe'i haddysgwyd yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth, lle graddiodd mewn Ffrangeg ac Eidaleg cyn dilyn cwrs M.A. ym Mhrifysgol Aukland, Seland Newydd. Ers 1982 bu'n gweithio i Fwrdd Croeso Cymru, yn gyntaf fel Swyddog Cyhoeddusrwydd ac yna Swyddog Golygyddol.

Dymunwn yn ddai iddi yn ei swydd newydd.



YSGOL FEITHRIN Y WAUN A'R CYLCH

Yn eisiau erbyn mis Ionawr '86 - hyfforddwraig neu rywun gyda chymwysterau N.N.E.B. am 4 diwrnod, 10 awr yr wythnos.

Manylion pellach gan:
Elisabeth Shore: Caerdydd 758878 neu
Sandra McAlister: Caerdydd 44889.

# TWR TRAFOLI

YDI'R TWR TRAFOLI yn golygu rhywbeth i chi? Os ydych chi'n darllen y Dinesydd yn gyson, efallai eich bod yn cofio'r son amdano ddechrau'r flwyddyn - neu efallai ichwi ddod i un o'r cyfarfodydd cyntaf, a cholli cysylltiad wedyn. Wel, rydan ni yma o hyd! Wedi seibiant dros yr haf yr ydym wedi ail-ddechrau cyfarfod yng Nghlwb Ifor Bach bob yn ail nos Sul.

I'r sawl ohonoch a symudodd i Gaerdydd i fyw yn ddiweddar, neu i'r rhai ohonoch sydd wedi anghofio - gair gwneud o "trafod" a "moli" yw "trafoli". Mae'n crynhoi amcanion y Twr Trafoli yn dwt: sgwrsio am bynciau moesol a chrefyddol, ac addoli - yn ystyr ehangaf y gair. Rhoddir pwyslais ar greu awyrgylch gyfeillgar fel bod pobl o bob math o gefndir ac o bob oed yn gallu cyd-addoli, gan ddefnyddio dulliau anffurfiol, cyfoes. Y syniad yw estyn llaw i'r rhai na ddont yn agos at gapel neu eglwys fel arfer: nid cychwyn enwad newydd na chystadlu yn erbyn eglwysi Cymraeg y ddinas yw'r bwriad, ond yn hytrach ddenu rhai sy'n teimlo'n rhy swil, efallai, i fynd i oedfa arferol. Y gobaith yw apelio at rai nad ydynt wedi bod mewn capel neu eglwys ers blynyddoedd (os o gwbl) a dangos iddynt fod Cristnogaeth yn wir berthnasol i'r oes fodern ac yn rhoi pwrpas arbennig i fywydau pobl. Mewn oes pan fo cymaint o bobl yn chwilio am ystyr i'w bywydau drwy gyffuriau ag ati mae'n bwysicach nag erioed cynnig ateb ysbrydol i'r rhuthr materol sy'n nodweddiadol o'n cymdeithas.

Os ydych chi'n teimlo fod gan y Twr Trafoli rywbeth i'w gynnig i chi, beth am ddod i un o'r cyfarfodydd - gwyliwch Calendar y Dinesydd am ddyddiadau. Os hoffech rhagor o fanylion, croeso ichwi gysylltu a Sian (397901), Dafydd (374976) neu Meinir (752522).

# Colofn Shân Emlyn



TRISTWCH, BRAW a dychryn oedd hi gan Gymry Cymraeg glywed am farwolaeth trychinebus Tom Jones, Llanuwchllyn fis dwytha. Y bore hwnnw, yn syth ar ôl brecwast 'r o'n i'n eistedd wrth fwrdd y gegin yn sgwennu Cofnodion Pwyllgor Gwaith Cymdeithas Cymry Ariannin gynhaliwyd yn ddiweddar. Pan ganodd y ffôn 'r o'n i ar fin sgwennu pump o argraffiadau Tom ar ei ymweliad â'r Wladfa yn gynharach eleni. Awgrymodd y dylai'r Gymdeithas ystyried anfon gweinidog allan i'r Wladfa am chwe mis, yn hytrach na gwario dros bum cant o bunnau'r flwyddyn, fel y gwneir ers blynyddoedd, ar anfon Y Cymro a'r Faner yno. Dyna enghraifft o Tom yn arwain pwyllgor. Fel Cymdeithas ein teyrnged iddo fydd dwyn y maen i'r wal. Eisoes cytunwyd ar yr egwyddor, er sicrhau hynny addawodd pob aelod o'r pwyllgor anfon eu copiau hwy o'r Cymro a'r Faner i'r rhai sydd wedi arfer eu derbyn.

Ar y ffôn y clywais bod Tom wedi mynd. Methais a mynd yn ôl at y cofnodion am rai dyddiau. Roedd Tom ar fy meddwl - dyna golled - colled i'r teulu, colled i Benllyn - colli brenin eu bro - colled i lywodraeth leol, colled i fyd Cerdd Dant, colled enfawr i gymdeithas Cymry Ariannin, colled i'r Eisteddfod a cholled areithiwr tanbaid a chwmniwr difyr. Roedd yn ffrind personol i ni fel teulu, llanwodd sawl bwlch inni yn hanes teulu Owen, a hynny efo hiwmor direidus. Nid un o weinyddwyr yr Eisteddfod yn unig oedd o, byddaf i bob amser yn eistedd ar ochr chwith i'r llwyfan yn y pafiliwn, a gwyddwn ond imi droi fy mhen i'r dde y gwelwn Tom gyferbyn a mi - bydd bwlch ar ei ôl yno hefyd.

Wrth geisio dygymod â'r newydd, deall mai damwain car ar ei ffordd yn ôl o Lydaw gafodd Tom. Roedd wedi bod yn chwilio am bafiliwn addas ar gyfer Eisteddfod Porthmadog ac yn prysuro i bwyllgor pwysig o Gyngor Gwynedd drannoeth. Mewn ffordd roedd y ddamwain yn ddarlun o'i ymroddiad at "Y Pethe" - yn ddiwylliannol ac ymarferol. Mae 'na rhywbeth a phriodol yn hynny. Creulon fyddai hi petae wedi'i orfodi gan henaint i'w gornel. Nid dyna steil Tom. Yr unig ffordd i ddeall a derbyn ei farwolaeth yw cofio a gwerthfawrogi ei gyfraniad ac i hynny ein hysgogi a'n hysbrydoli i ymegnio i hyrwyddo'r Pethe oedd mor agos at ei galon. Cydymdeimlwn â phobl Cymru, Penllyn ac yn arbennig y teulu, rhai yn byw yng Nghaerdydd, yn y golled enfawr ddaeth i'n rhan ni i gyd.

CANOLFAN
ADDYSG OEDOLION
RADUR

CYRSAIU DYSGU NOFIO I BLANT

Bu llawer o ymholiadau yn ddiweddar ynglŷn â chyrsiau nofio i blant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Pe bai gan unrhywun ddiddordeb - cysylltwch â Mrs.Ann Evans, Canolfan Addysg Oedolion Radur.

Hefyd, bydd eisiau athro/athrawes (â'r cymwysterau priodol) i ymgymryd â'r dosbarth hwn.

Ffoniwch Radur 842056

# GEORGE MAESELAI

DYMA'R DRYDEDD BENNOD yng nghyfres DUNCAN PUGH, dysgwr o Sidlow Bridge, ger Reigate yn wreiddiol, sy'n olrhain hanes enwau llefydd yng Nghaerdydd a'r cylch. Y tro hwn cawn fwrw golwg ar hanes Trelai. Ymddiheuriwn am beidio â chyhoeddi'r erthygl hon yn y rhifynnau diwethaf - ond roedd prinder gofod.

DENGYS EWYLLYS Sion Rhys, 1719, mor ddieithr oedd Seisnigrwydd ym mywyd pentrefi Elai wedi 183 o flynyddoedd fel rhan o Loegr. Saesneg yw'r ddogfen, ond ag enwau caeau fel 'Tair Erw Heol-y-Coed', 'Tair Erw Mair' ac 'Erw'r Pentre Kae-Gwynne'.

Achles i'r truain yma oedd crefydd. Ond oherwydd bychander y pentre (poblogaeth o 180 ym 1765) roedd rhaid i'r sawl a fynnai cael ei fedyddio, ei briodi, neu'i gladdu cyrchu'r capel Cymraeg yn Eglwys gadeiriol Llandaf. Adeiladwyd y capel Methodistaidd ym 'Mill Rd' yn hanner cynta'r 19eg ganrif i leddfu'r drafferth yma. Gyda'r rhuthr o fewnfudur, fe'i ail-adeiladwyd ym 1857, a dyma ddechrau'r gwasanaethau Saesneg. Dewiswyd yr achlysur hwn i agor y capel yn 'swyddogol'! Ym 1874, newidiwyd iaith yr ysgol Sul i'r Saesneg - symudiad a berodd ddicter mawr ymhlith llawer o'r trigolion. A mawr fu'r gwrthwynebiad ym 1879 pan aeth y capel yn uniaith Saesneg. Adroddwyd am deithiau'r bonheddwr Thomas Griffiths a'i wraig yr holl ffordd i'r capel Cymraeg yn 'Union St'.

Achos y Seisnigo yma oedd dilyw y Saeson a Gwyddelod fel 'nafis' i osod y rheilffordd. Ond hefyd rhuthrai'r Cymry o'r ardal i swyddi 'gwell' y pyllau glo; eithr pwysicaf oll, daeth dylanwad anochel yr ysgolion Saesneg ar feddwl y plant.

Un o'r Cymry ffyddlonaf yn y fro oedd George Thomas, Maeselai (Saesneg: Ely Farm) 1821-1898, o Bentyrch yn wreiddiol. Honnai y gallai olrhain ei achau hyd amser Elizabeth I. Roedd ganddo'r swydd ddefodol o 'High Constable of Kibbor' (sef cwmwd Caerdydd). Yfe oedd yr amaethwr diwethaf yn ardal Caerdydd i aredig ag ychen, cyn troi i geffylau.

Tra'n gyrru'r ych neu'n eistedd yn y dafarn roedd yn hoff iawn o ganu tribanau, sef penillion di-gyswllt, yn nodweddiadol o Forgannwg. Byddent fel arfer yn amserol neu weithiau'n ddychanol. Cofiai George Thomas rai gan ragflaenydd iddo yn y gymdogaeth, sef James Turberville (ganwyd 1751) a allai bod yn llym iawn a'i fedr i gyfansoddi tribanau. Unwaith, tra'n aredig yn ymyl y Bwrtwe, bu twr o lancesi yn chwedleua wrth y ffynon. Ceryddodd Shemsyn Twrbil y merched am fod mor dafotrydd a pharodd hyn i ohonyn nhw daflu tywarchen ato. Ond ar unwaith dyma fe'n canu'r pennill hwn:

> Ma merchid glen yn Dwllgod,
> Ag yn Llandef rai 'ynod
> Ag yn y Ceira amal rai
> Ond yn Drelai cleciod.

Ar y llaw arall cyfeiriodd Twm Llywelyn, Llantrisant, at fan geni Shemsyn, sef Cymdda Elai ('Victoria Park' heddiw):

> Shemsyn Twrbil smala
> A gwnwd ar y Cymdda,
> Rwyt wedi dysgu iaith dy fam
> A 'ono gin y gwydda!

Saif ffermdy George Thomas o hyd. Fe'i gwerthwyd ym 1931 i'r teulu Davies o Landdewi Brefi, ac maent yn dal i gynnal llaethdy yno. Oddi yma, ynghanol y ddinas bron, mae golygfa hynod o wyrddlesu yn ymestyn hyd at Goedydd Lecwydd o hyd, er bod y caeau wedi'u troi'n erddi erbyn hyn.

Mae gan Maeselai ei ragfaenydd Rhufeinig yn 'Trelai Park' - sef y twmpathau sydd yn olion y fila - sef fferm Rhufeinig. Cawsom nhw eu cloddio gan archeolegwyr ym 1896. Sylwyd ar ei sefyllfa anhygyrch ynghanol cors Morfa Bach. (Cofier bod diogelwch gwladychwyr Rhufeinig o bwys iddyn nhw, yng nghanol Silwriaid balch a ffyrnig!) Ond hefyd roedd hi o fewn cyrraedd afon Elai, a chafwyd prif efail filwrol ar y safle, a glo o Bentyrch a mwyn manganis o Sbaen i'w cyflenwi. Yr oedd yno pob math o "mod cons", megis gwres canolog is-lawr, sauna gyda chaethwaesion i wasanaethu.

Er hynny, tua 300 O.C. dechreuodd pethau fynd tipyn yn rhy drwm oherwydd cyrchoedd mor-herwyr Gwyddelig a oedd mor an-Rufeinig eu ffyrdd. Daeth yr ynys ddiogel yn gyrchfan i'w cwrwglau. Bu rhaid i ddeiliaid y fila adeiladu clawdd a gwrych o gylch eu paradwys bach yn y wlad - hwn yw'r clawdd a welir heddiw.

Ar bwys y safle yma roedd maes rhedeg am flynyddoedd maith, hyd pedwardegau'r ganrif hon. Mae ambell un o breswylwyr Trelai yn cofio'r ceffylau gorau a'u jocis clodfawr yn rhodio o'r marchgae ar hyd y "Grand Avenue", pan nad oedd ond caeau gwyrddion yna. Yn wir, trwy gydol y flwyddyn tyfid gwair ar y trac!

Maeselai ydi'r fangre ola-namyn un cyn i'r hen sarn croesi afon Elai. O 1855 hyd ei gau yn y saithdegau cynnar, safai bragdy "Tower" i'r chwith yn union cyn yr afon. Cyflogid llawer o'r gweithwyr lleol yn gwneud "Ely Ales". Roedd y rhain ag enw da arnyn nhw drwy Forgannwg - dichon mai elfen allweddol y llymaid oedd dwr dudew yr afon gerllaw!

h Duncan Pugh 1985


# Gwasg Rydd

Mae Gwasg Rydd yn un o asiantau Cynllunio a Chysodi mwyaf blaengar Cymru. Gallwn gynnig:

- **Gwasanaeth Cynllunio cyflawn**
- **Cysodi mewn 61 o wahanol wynebau teip**
- **Gwasanaeth Cyfeillgar a Chymraeg**

Arbenigwn hefyd mewn defnyddio sustemau "PagePlanner", sy'n caniatau i'n cwsmeriaid gynllunio'u tudalennau'u hunain a chael gwaith celf gorffenedig yn syth o'n peiriannau. Mae'r sustem yma'n ddelfrydol ar gyfer cynhyrchu llyfrau a chylchgronnau. Gall arbed oriau o waith gludo diflas, a sicrhau cynnyrch hollol broffesiynol.

Am ragor o wybodaeth am sut y gall Gwasg Rydd eich cynorthwyo chi, cysylltwch â Siân Helen ar Gaerdydd 42403.

# GEORGE DANDIN



HWN OEDD pedwerydd cynhyrchiad Cwmni'r Gadwyn, sef Cymdeithas Ddrama Gymraeg Radur, a dychwelyd at gomedi o waith yr awdur cyntaf iddyn ei lwyfannu,sef Moliere, a wmaethpwyd y tro yma.

Cyfieithad gan Gillian Griffiths o fersiwn Saesneg y ddrama a gafwyd, ac roedd addasiad tafodieithol pellach ambell i aelod o'r cast yn ychwanegu'n hyfryd at lifeiriant y deialog. Mab i siopwr cefnog ym Mharis oedd Jean Baptiste Poquelin, neu Moliere fel y dewisodd alw ei hun pan gymerodd arno fantell yr actor, ac fe'i ganed yn 1622.

Cafodd addysg dda, fel y gellid disgwyl i un o'r "bourgeois" ei gael, ond ym 1643 penderfynodd adael ei deulu a ffurfio cwmni drama ym Mharis. Aflwyddianus fu'r fenter yn y brifddinas a gorfu i'r cwmni fynd yn grwydrol drwy daleithiau Ffrainc. Yn ystod y cyfnod hwn y bu'n ymhel ag ysgrifennu am y tro cyntaf. Creodd ddrama newydd, ac ynghlwm wrth hyn fe greodd gelfyddyd actio newydd hefyd. Yn ôl Saunders Lewis "...y mae comedi (yn nwylo Moleire) yn beth preifat, cyfrinachol, personol, yn gofyn celfyddyd newydd mewn actio...troi actio yn ymgom, yn siarad yn hytrach nag yn areithio, yn beth cwmniol ac nid yn beth annibynnol. Pob actor yn cyfarch ei gilydd, yn byw a chydwneuthur a'i gwmni, a'r gynulleidfa yn ei glywed megis ar ddamwain, ond heb ei bod yn gymeriad yn y chwarae..."

A dyna yn union sut y ceir dechrau i George Dandin, enw'r cymeriad hoffus hwn o drâs is sydd wedi priodi ag un o'r "bourgeois" ac yn dioddef o'r herwydd. Fe glywsai si fod ei wraig yn anffyddlon iddo a threuliodd weddill yr amser yn ceisio'r prawf a fyddai'n dangos ei gwir natur i'w rhieni, na fynnai yn naturiol dderbyn fod y fath beth yn bosib o gwbl. Ddim o leiaf i bobl o'u tras hwy. Ar ddiwedd y dydd, pan syrth y llen, aflwyddiannus fu ei ymdrech i bardduo cymeriad ei wraig, ac y fo,George Dandin,y gŵr a gafodd gam gan ei wraig sydd yn gorfod penlinio o'i blaen a gofyn am faddeuant.

Mwynhâd pur oedd y cynhyrchiad ac roedd ôl mwynhau ar bob aelod o'r cast hefyd. Roedd trueni yn llygaid George Dandin ei hun, cyfrwystra yn llygaid Angelique, ei wraig, ymffrost yn llygaid Clitandre, yr un a ddymunai ffafr Angelique, direidi yn llygaid Claudine a Lubin, y gwâs a'r forwyn, a gwagle yn llygaid Colin, gwas de Sotenville. Roedd y set yn syml ond effeithiol, a'r gwisgoedd a'r coluro a'r gwallt yn drawiadol dros ben.

Diolch i'r cwmni, yn actorion ac aelodau o'r tîm cynhyrchu dan arweiniad Emyr Edwards, am eu dycnwch a'u dyfalbarhad yn rhoi i ni ddramâu Cymraeg safonol ar stepen ein drws ni fel petae. Bydd y cwmni yn perfformio'r ddrama yma yn Theatr Felin-Fach, Dyfed, ym mis Tachwedd ac yna ym mis Mawrth 1986 fe geir cyflwyniad o "Brad" gan Saunders Lewis yn Theatr y Sherman.

Pob lwc iddynt yn y dyfodol, a phwy ŵyr na chaiff y cwmni wahoddiad i berfformio yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abergwaun ym mis Awst y flwyddyn nesaf. Tybed?

Rhodri Gwyn Jones.


## Mudiad Ysgolion Meithrin

SWYDDOG DATBLYGU

O ddechrau Ionawr 1986, bydd eisiau 2 Swyddog Datblygu rhan amser yn Ne Morgannwg.

Manylion Pellach oddi wrth:

Y Cyfarwyddwr
Mudiad Ysgolion Meithrin
10 Park Grove
CAERDYDD

Rhif ffon: Caerdydd 36205


## Arddangosfeydd TACHWEDD

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU
Y Prif Adeilad, Parc Cathays.

Crefftwyr Cyfoes
Arbenigo mewn gwneud botymau, gleiniau ac ati mae Claire Grove sy'n byw yn Llancarfan. Ganed hi yn Birmingham ym 1959 ac wedi cwrs yng Ngholeg Swydd Caerloyw aeth ymlaen i astudio Celfyddyd Gain yn Winchester. Ei chyfrwng yw clai synthetig wedi'i galedu mewn ffwrn cyffredin.

Llythrennau ar garreg wna Richard Grasby. Defnyddia hen ddull traddodiadol gan ddefnydio morthwyl a chŷn.

Hefyd dangosir waith cerameg gan Brian a Julie Norman.

---

ORIEL JOHN OWEN
Salisbury Road

Paentiadau gan Simon Weaver
11 Hydref - 2 Tachwedd

Bwriedir ymestyn yr arddangosfa hyd yn ddiweddarach yn y mis, felly digon o gyfle i chi ymweld â hi. Tri deg a saith o luniau mewn olew ag acrylic a'r mwyafrif yn dirluniau o Dde Cymru, a nifer ohonynt o Fro Morgannwg a Chaerdydd. Mae'r cyfan yn dangos ôl gwaith manwl a chywrain iawn yn y dull realistig, bron a bod yn drosiad union o ffotograffiau lliw. Mewn un portread bach hyfryd iawn o "Anne" mae hefyd yn dangos arddull dda a diddorol. Yr oedd portread o Teleri Bevan wedi ymddangos hefyd ond wedi diflannu cyn i mi ei weld!

Mab i arlunydd o'r Fenni yw Simon Weaver ac wedi'i addysgu yng Ngholeg Celf Casnewydd a Kingston. Ar hyn o bryd mae'n byw yng Nghaerdydd.

---

ORIEL
Heol Siarl

Nid yw arddangosfa'r mis yn dod yn union dan y pennawd Celf efallai, ond dyma nodi - Clwb Rygbi 1 Tach. 1985 - 4 Ion.1986. Cyflwyniad gweledol o gelfyddyd a memorabilia gêm clybiau y dosbarth cynatf. Bwriedir cynnal nosweithiau agored, a chyflwyniadau i bartïon ysgol drwy gydweithrediad Cyngor Chwaraeon Cymru.

---

CHAPTER
Market Road, Treganna

Marie Ann Faulkener - Lluniadau
16 Tachwedd - 21 Rhagfyr

Lluniadau yn tynnu o waith Breughel a Bosch ond ar themâu cyfoes megis Suburban Housewife I a II, Domestic Dispute ag ati/dyma'r arddangosfa gyntaf o bwys i'r artist ifanc.

HTV CYMRU

# CROESO I GROES CWRLWYS!

## Gwahoddwn chi i ddod fel cynulleidfa i'n Canolfan newydd

## Croeso i grwpiau ac unigolion o bob oed

Cysylltwch â ni drwy lythyr:

**Swyddfa Cysylltiadau Cyhoeddus**
**HTV Cymru**
**Y Ganolfan Deledu**
**Croes Cwrlwys**
**Caerdydd**
**CF5 6XJ**

Neu ffoniwch:

**Caerdydd (0222) 590241** neu **590243**




RWYF WEDI RHOI gwybodaeth eisoes yn y golofn hon ynglyn a'r cymeradwyon a wneir i wella ein diet. Ers i mi ysgrifennu am adroddiad NACNE mae'r ymgyrch i geisio cael pobl i newid eu harferion bwyta a'u dull o fyw wedi cynyddu. Mae Curiad Calon Cymru,y rhaglen gyntaf o'i fath yn Ewrop, wedi ei sefydlu, ac yn ddiweddar cafwyd adroddiad arall o'r Cyngor Addysg Iechyd a Sefydliad Maeth Prydain. Amcan yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth am effaith bwyta gormod o frasder yn ein diet, a sut gellir newid y diet er mwyn lleihau'r cyfanswm o frasder a fwyteir. Er bod tua 10,000 o bobl Cymru a chyfanswm o un allan o bedwar o bobl Prydain Fawr, yn marw o afiechydion y galon bob blwyddyn, ni chafodd y pwyllgor annibynnol a fu'n gyfrifol am yr adroddiad ganiatâd y llywodraeth i gyhoeddi'r cyngor i'r cyhoedd heb ymyrraeth yr Adran Iechyd. Efallai i rai ohonoch weld rhaglen "World in Action" y mis diwethaf ar y teledu, lle rhoddwyd manylion am y trafferthion gafodd y pwyllgor annibynnol nid yn unig o'r llywodraeth ond hefyd o'r Sefydliad Maeth Prydain. Mae'n amlwg fod y diwydiant bwyd a'r polisiau amaeth sy'n caniatau cynhyrchu gormod o laeth, cig ac ymenyn, wedi bod yn ddylanwadau cryf i atal yr adroddiad rhag cael ei gyhoeddi heb rhai adnewidiadau. Serch hynny, mae'r adroddiad ar gael erbyn hyn mewn ffurf llyfryn hawdd ei ddeall - am ddim.Enw'r llyfryn yw "Eating for a Healthy Heart", ac efallai cawn gyfleithiad yn y dyfodol. Gellir anfon am y llyfryn o Swyddfa Addysg Iechyd, Awdurdod Iechyd y Sir. (yn Ne Morgannwg dylid anfon at Mr.R.A. Goosey, Adran Addysg Iechyd, Ysbyty Dewi Sant, Heol y Bontfaen, Caerdydd.) Un o amcanion rhaglen Curiad Calon Cymru yw perswadio pobl Cymru i weithredu eu hunain er mwyn sicrhau lleihad yn amlder marwolaethau ac afiechyd clefyd y galon ymhlith y boblogaeth. Mae gweithgareddau penodol y rhaglen yn canolbwyntio ar hyrwyddo bywyd iach gan annog pobl i ymarfer yn rheolaidd, i fwyta'n iach ac i beidio ysmygu. Ar hyn o bryd maent yn teithio o amgylch Cymru i hysbysebu'r rhaglen ac yn sefydlu cyrsiau 10 wythnos o hyd lle gellir cael gwybodaeth am wahanol agweddau yn ymwneud a iechyd, e.e. diet, ymarfer, ymlacio, cwsg ac yn y blaen. Mae Huw Davies, Is-Gyfarwyddwr (Cysylltiadau Cyhoeddus) y rhaglen yn awyddus i gael mwy o bobl sy'n siarad Cymraeg i roi cymorth gyda rhedeg cyrsiau trwy'r iaith Gymraeg; os oes rhywun a



diddordeb yn y fenter dylid cysylltu a Mr Davies yn swyddfa'r mudiad. Mae'r Cyngor Addysg Iechyd wedi neilltuo £1.5m am 5 mlynedd ar gyfer y rhaglen a chafwyd grant o £100,000 ar gyfer 1984-85 gan y Swyddfa Gymreig; dengys hyn y pwysigrwydd a roir i'r fenter. Mae gan dîm cyfarwyddo'r rhaglen hawl hefyd i ofyn am gefnogaeth gan ddiwydiant a masnach - ar hyn o bryd maent yn cynhyrchu"Pecyn Iechyd" yn Saesneg a Chymraeg, gyda chymorth Cymdeithas Adeiladu'r Principality, sydd ar gael o'u swyddfa yn 24 Park Place, Caerdydd. Fe fydd cyfres o raglenni teledu yn Gymraeg yn cael eu darlledu yn y dyfodol, ac fe welir llawer iawn o weithgareddau dros y blynyddoedd mewn ysgolion, ysbytai, canolfannau chwaraeon, mannau gwaith, yn y Wâsg, ar y teledu ac yn y blaen wedi'u trefnu gan y tim sy'n gweithio i'r rhaglen. Amcan arall sydd i'r rhaglen yw cael sefydliadau arlwyo, yn cynnwys cantinau ysgolion ac ysbytai, a chynhyrchwyr bwyd i ddarparu bwydydd sy'n fwy iachus. Golyga hyn addasu bwydlenni i gydymffurfio gyda'r cymeradwyon a wneir gan yr adroddiadau ar fwyta iach ac hefyd cael mwy o fwydydd yn ein siopau sy'n cynnwys llai o frasder,e.e.llaeth a chynnyrch llaeth gyda llai o frasder; llai o frasder hefyd mewn cigoedd a chynnyrch cigoedd. Da fyddai gweld llefydd bwyta hefyd yn cynnig bwydydd mwy iachus ac mae'r rhaglen yn gobeithio datblygu cynllun o wobrwyo tai bwyta sy'n cynnig bwydlen addas er mwyn cael mwy ohonynt i baratoi bwydydd iach ar ein cyfer. Mae'n rhaid i ninnau wneud ein rhan trwy wneud yn siwr ein bod yn mynnu'r siopau ddarparu ar ein cyfer trwy gael dewis da o fwydydd sy'n cynnwys llai o frasder ar eu silffoedd a thrwy ofyn am fwydydd tebyg mewn tai bwyta. Dylem hefyd baratoi bwydydd mwy iachus ein hunain - fe roddaf rhai syniadau'r mis nesaf. Dyma ran o neges Cyfarwyddwr rhaglen Curiad Calon Cymru, yr Athro John Catford sy'n dal y gadair Addysg Iechyd a Hyrwyddo Iechyd yng yng Ngh！oleg Meddygol Prifysgol Cymru ar gychwyn yr ymgyrch:

"Dengys pryder cynyddol ymhlith aelodau'r boblogaeth, gwleidyddion a phobl broffesiynol y dylid gweithredu er mwyn lleihau'r perygl o glefyd y galon.Wnawn ni ddim dileu'r broblem hon yn llwyr, ond fe allwn wneud argraff ddofn arni. Mae angen inni fyw bywydau mwy iachus Dylem wneud llawer mwy ynglyn a bwyta iachus; peidio ag ysmygu; ymarfer yn synhwyrol; cwtogi ar ddiod meddwol; ymdopi a straen beunyddiol a rheoli pwysau'r gwaed. Gwneud y dewis iach yn ddewis hawdd - dyna yw ein gwaith ni. Mae mor hawdd yng Nghymru heddiw inni ddilyn y ffordd anghywir. Yn wir, mae diffyg gwybodaeth, incwm annigonol, a gwasanaethau anfoddhaol yn aml yn ein gadael heb fawr o ddewis. Swyddogaeth Curiad Calon Cymru yw cyflwyno ffyrdd eraill a fydd yn ddeniadol ac yn dderbyniol; ond os ydym ni am lwyddo, mae'n rhaid inni gredu bod ein bywydau yn werth ymladd drostynt. Y nôd ydy creu yn y boblogaeth ymwybyddiaeth o'u gwerth fel pobl; y gallu i bob un reoli ei fywyd ei hunan (yn enwedig o safbwynt Iechyd); a'r hyder i newid yn ôl yr angen. Mae'n rhaid i Curiad Calon Cymru, felly, ddatblygu'n rhaglen ehangach nag a dybid ar y dechrau. Mae gan bob sector o gymdeithas Cymru gyfraniad pwysig i'w gynnig - yr ysgolion, y gwasanaeth Iechyd, y gweithfeydd, y Wasg a'r cyfryngau darlledu a diwydiant a masnach. Yn anad dim, beth bynnag, mae'n rhaid i bobl Cymru deimlo mai eu rhaglen calon hwy yw hon, oherwydd heb eu cefnogaeth ymarferol, ni allwn gyflawni llawer o gwbl. Fy nymuniad diffuant i yw gweld Curiad Calon Cymru'n fel enghraifft o raglen y gymuned yn ymestyn at y ganolfan yn gymaint a'r ganolfan yn ymestyn at y gymuned. Fe ddylai'r pum mlynedd nesaf fod yn ysbrydoliaeth i weddill Prydain ac, yn wir, i'r byd. Yr wyf yn gwybod, yn ôl y croeso cynnes iawn a dderbyniais yng Nghymru'n barod ers imi ddechrau ym mis Ionawr, nad mater o ennill yn unig mohono, ond o faint yr enillwn."

# BWTH RUTH



WEL HELO a pha hwyl sydd erbyn hyn - newydd gael diwrnod da - nid, cofiwch chi, fod na lawer o rai drwg! - ond mae na ambell un sy'n well na'i gilydd - ag un fel yna fu hi heddiw. Mi biciais i weld ffrind annwyl iawn i mi ddoe, dyn tal sy'n actor yma yng Nghymru, a drws nesa' yn Lloegr, ac mi benderfynson y byddai'n syniad da efelychu siopau fel Sainsbury's a Tesco's a mynd ati i biclo a mwydo rhai ffrwythau. Wedi hir drafod a finnau'n cynnig yr holl jariau amrywiol eu maint a'u siâp sy'n prysur lenwi'r garej - na - doedd dim amdani ond y "Kilner", ag yn ôl y Monwysyn, Habitat oedd y lle a £1.20 oedd y pris am un jar. Tybed fyddai'n bosib cael rhai'n rhatach petaem yn defnyddio pwerau perswâd mewn "Cash & Carry", neu mewn warws - efallai buasai un neu ddau o'r siopau mwy yn werth caniad - ond doedd dim llwyddiant yn dod. A dyma gofio am siop gwerthu popeth yn Canton, parcio ar ddwy lein felyn a picio i mewn jest i holi. Dyna lle'r oedden nhw - yr union faint, a'r union bris -87c!!!! Roedd prynu'r gellyg a'r orennau yn syml ar ôl helynt y jariau. Dyna fynd adre a gwneud fy ngwaith cartre gogyfer â heddiw - diwrnod y potelu. Erbyn mynd i 'ngwely roedd na lyfrau risetiau ar agor dros y gegin a'r dewis i fyny i'r 'gourmet' ei hun. Bore heddiw a wawriodd, ac yn brydlon am unarddeg dyma JP acw a dyna gychwyn ar y gwaith (ar ôl paned, wrth gwrs). "Pa un o'r risetiau wyt ti'n ffansio?" meddwn. "Dim un ohonyn nhw - mae o yn y mhen i", medda fynta. "O", meddwn i.

"Dyma sydd isio:
1/2 peint o ddwr
8 owns o siwgwr gwyn
1/4-1/2 peint o frandi (rhain i wneud y siryp)
Pwys o gellyg, ffrwyth kiwi, orennau neu eirin gwlanog.
Rhowch ddwr berwedig ym mhob un o'r jariau Kilner, yna eu gwagio nhw a'u llenwi hefo'r ffrwyth, wedi eu plicio a'u torri". Dyma finnau'n ei atgoffa fod rhoi'r ffrwythau yn ofalus i lawr ymyl y jar yn gallu harddu'r jariau!!

"Tywallta'r siryp dros y ffrwyth ag i'r ymyl. Rho ddiferyn o frandi i mewn gynta os leci di, a rwan rho'r clawr arno fo'n dynn" Dyna wnes i - diolch, John.!!

## CYMDEITHAS GYMRAEG DINAS POWYS

AR FEDI 6 ymunodd rhyw chwe deg o aelodau'r Gymdeithas mewn Helfa Drysor. Cafwyd cychwyn da gan yr holl geir i fyny Ffordd y Dyrpeg ac yna draw tua'r drafford newydd cyn troi am Sain Ffagan, San Siôr, Llanbedr y Fro a Thresimwn.

Roedd yn rhaid casglu atebion i'r cwestiynnau dyrys a chwilio'n fanwl am bob "cliw". Peter Davies a Dylan Jones oedd y meistri tu ôl i'r holl helynt - cant y cant i'r ddau am eu dyfeisgarwch. Ar ddiwedd y daith roedd swper i bawb yn Ngwesty'r Castell yn y Wenfô. Rowland Owen a'i griw enillodd y wobr gyntaf ag Eirlys Cobb a'i chriw a gafodd y "booby".

Dewch ar y nos Lun cyntaf o'r mis i Neuadd San Pedr - cewch groeso brŵd gan Gymry'r Cylch. Y swyddogion eleni yw:

Dylan Jones, Cadeirydd
Nia Jones, Ysgrifennydd
Alun Roberts, Trysorydd
Eifion Wyn Hopwood, Llywydd.

# BRAS - ODLAU gan EMYR LEWIS

Mae perfformio barddoniaeth yn gyhoeddus yn rhywbeth nad yw, gwaetha'r modd, wedi cydio yng Nghymru yr yr un modd ag a gydiodd yn Lloegr ganol y chwedegau. Mae gennym ein perfformiadau cyhoeddus, ond rhyw "ddarlleniadau" sych yw'r rheini gan amlaf.

Mae ambell ymgais lew wedi bod i ddod â'r un hwyl a brwdfrydedd i berfformio barddoniaeth Gymraeg, yn arbennig yn sgil cyfres Beirdd Answyddogol Y Lolfa ac yn sgil gwaith caled rhai fel Menna Elfyn yn datod hualau "traddodiad" swyddogol affwysol barddoniaeth Gymraeg.

Er hyn, prin y llwyddwyd i gynnau prennau sychion cynulleidfa barddoniaeth Gymraeg yn goelcerth o frwdfrydedd. Gellid dadlau mai un rheswm dros y diffyg hwnnw yw'r modd y mae ei chynulleidfa yn synio am farddoniaeth. Labelwyd barddoniaeth yn daclus, â'i gosod mewn un dror yng ngwpwrdd Diwylliant, i'w thynnu allan nawr ac yn y man, cyn ei phygu'n ddestlus a'i rhoi yn ei hôl yn ofalus. Fyddai hi ddim yn gwneud y tro i agor mwy nag un drôr ar unwaith, rhag ofn drysu a gwneud lle blêr.

Nid oedd, drwy drugaredd, unrhyw fursendod diwylliannol cyffelyb yn perthyn i Amandla, ensemble diwylliannol Cyngres Genedlaethol Affrica, yn ystod eu perfformiad diweddar yng Nghaerdydd. Cyfunwyd cerddoriaeth, barddoniaeth, drama, dawns, canu, meim ac areithio gwleidyddol yn yr un cyflwyniad rhyfeddol. Cyfunwyd dulliau dawns werin Affricanaidd a cherddoriaeth jazz a blues fodern, gan ein hatgoffa am wreiddiau'r llall yn y naill. Cafwyd sioe ag iddi fwrlwm cyson am dros bedair awr, a dim ond ugain munud o egwyl yn y canol. Gwers yn wir i Gymru- Noson Lawen a dipyn o gic iddi.

Un sydd wedi gwneud llawer dros dorri ar y pren rhwng y droriau yng nghwpwrdd diwylliant yw Iwan Llwyd. 'Rydym yn dal i ddisgwyl am ei ail gyfrol o farddoniaeth, ond mae wedi bod yn brysur yn gosod ei gerddi i gerddoriaeth, a phwy a ŵyr na chawn dâp neu record ganddo yn y man. Mae o hefyd yn cychwyn ar y fenter o gyd-gyhoeddi y cylchgrawn newydd A5. Mae Iwan wedi gyrru cerdd i'r golofn y mis hwn, a diolch iddo amdani:

EIRA BUDUR

Rhewodd ein hangerdd ers tro bellach,  
yn haenau o wydr addurn  
dan wadnau cyffyrddus ein byw:

ein hwynebau rhew'n adlewyrchu'n  
slafaidd batrymau unffurf  
ein hymlwybro bwrgeisiol, bas:

ninnau'n camu'n araf ofalus,  
rhag llithro, rhag cracio'r wyneb,  
ac agor ein gwythiennau oer:

daeth pryd cawod eira arall:  
nid un dyner, a'i mantell yn cuddio'r  
byd yn wyryfol wyn:

ond cawod o eira sy'n gymysg  
a mwg a huddug y strydoedd,  
yn stwnsh dan olwynion y ceir,

yn ddagrau brwmstan ar wyneb,  
ac eira budur Bangor  
yn dadmer ein hangerdd rhew.

IWAN LLWYD

# CLEC I'R CYMRIC

"Anochel", medd rhai, "trasiedi", medd eraill, "pel droed" meddwn i.

Ydi mae'r tymor wedi hen ddechrau, ac mae pethau yn eitha caled yng nghyngrair y "Premier". Ond, rhaid peidio colli calon ar hyn o bryd - mae ennill yn bosibl!

Fe gasglwch felly nad ydi'r Cymric wedi cael llawer o hwyl ar bethau y tymor hwn hyd yma. Ydi, mae'ch casgliad yn iawn.

Ni sgoriwyd yr un gôl tan y drydedd gem, ac erbyn i'r tim rwydo am y tro cyntaf roedd y gwrthwynebwyr wedi rhoi gryn ddwsin o goliau heibio Dewi druan.

Mae'r gem yn galetach, mae'r taclo yn fwy ffyrnig, ac mae'r timau eraill yn fwy awyddus i ennill - dyna'r gwahaniaeh sy'n amlwg wedi deufis yn y "Premier".

Cafwyd bedydd tan go iawn. Y gem gyntaf yn erbyn pencampwyr y llynedd, Grange FC, a cholli o bedair gol i ddim fu'r hanes. Yna, yn erbyn Grange Albion, a chweir go iawn o che gol i ddim ar y Llun canlynol.

Gwrthwynebwyr a ddaeth i fyny o'r ail adran ac yna o'r gyntaf gyda'r Clwb oedd buddugwyr y drydedd gem, o ddwy gol i un, a Martun yn hawlio ei gol gyntaf, a gol gyntaf y Clwb yn y "Premier".

Mae'r ail dim, sef Aelwyd yr Urdd, hefyd wedi bod mewn trafferthion o'r cychwyn, a sawl gem wedi ei cholli o un gol yn unig - "drwy anffawd", medd rhai, "blerwch" medd eraill, "pel droed" meddwn i. Ond, ow, ar Sadwrn olaf un ym mis Medi, dyna chwrligwgan o gem yn erbyn Gabalfa Gunners o'r bumed adran (gem gwpan), a buddugoliaeth gyfforddus a graenus o unarddeg o goliau yn erbyn un. Gobeithio mai dyna'r dechrau iddynt yn wir.

Gweddill y canlyniadau:

Cymric 3 Witla Court 0  
Heath Hornets 3 Cymric 5  
Llanrhymni 4 Cymric 4  
Bridgend St 5 Cymric 1  
Trelai Old Boys 6 Cymric 0

Cathays Cons 2 Yr Aelwyd 3  
Yr Aelwyd 0 Grangtown 5  
Grangetown 2 Yr Aelwyd 3  
Tremorfa 4 Yr Aelwyd 3



# SÊR Y DINESYDD

ARIES: Dyma fis yn gorlifo o ramant - ond i chi ffrwyno eich byrbwylledd! Efallai daw rhwystrau i'ch erbyn os ydych ar fin dechrau rhywbeth newydd. Gochelwch rhag bod yn ddiofal yn y gwaith, mae na rai sydd am eich gwaed.

TAURUS: Byddwch yn dioddef o straen emosiynol y mis hwn - daw'r brychau i'r golwg yn eich pertrhynas. Daw mwy o ryddid ar bob tu tua chanol y mis - pan fydd y rhwystrau fu yn eich blino cyhyd yn diflannu.

GEMINI: Rydych ar drothwy cyfnod cyffrous o dyfiant yn eich bywyd, a bydd gennych ddigon o ynni i ddygymod ag ef. Mae hwn yn fis ardderchog i anturio ac i fentro gan ei fod yn gyfnod lwcus iawn. Mis rhamantus, er y gall pobl eraill eich siomi mewn rhyw ffordd.

CANCER: Fyddwch chi ddim mewn hwyliau rhy dda y mis hwn - byddwch yn dueddol o golli'ch limpyn ar yr esgus bach lleiaf. Efallai y cewch ymweliad annisgwyl oddi wrth hen gyfaill neu berthynas. Mis ardderchog i ddechrau ar broject newydd.

LEO: Cyfnod gwych i gymdeithasu. Mis fydd yn llawn o ddigwyddiadau cyffrous annisgwyl, a ddaw a newidiadau sylfaenol i'ch bywyd. Bydd eich iechyd yn ardderchog. Cyfnod gwych i deithio ac i ysgrifennu llythyron pwysig i hyrwyddo'ch gyrfa.

VIRGO: Bydd eich sefyllfa ariannol yn cymryd llawer o'ch sylw y mis hwn - ac os y gweithiwch chi'n ddiwyd gall wella yn ddirfawr. Byddwch yn clywed oddi wrth hên gyfeillion. Cyfnod prysur yn y cartref - gyda phlant yn enwedig.

LIBRA: Peidiwch ag ymlacio gormod y mis hwn neu fe allai eich gwaith ddioddef. Mae'n bosib y byddwch yn anghytuno a rhywun mewn awdurdod. Os y buoch mewn cyfyng gyngor ynglyn a phenderfyniad pwysig daw'r arweiniad nawr i wneud penderfyniad cywir.

SCORPIO: Byddwch yn newid eich agwedd tuag at adran bwysig yn eich bywyd y mis hwn - fe'ch gorfodir i wynebu problemau emosiynol a fu'n eich poeni ers tro bellach. Mae pethau ar i fyny i chi nawr; bydd bywyd tipyn yn ysgafnach a hwyliog nag y bu ers hydoedd.


SAGITTARIUS: Hyd at y 18fed o'r mis bydd pob peth o'ch tu, felly gwnewch y cyfan sydd angen ei wneud cyn hynny. O'r 19eg ymlaen daw rhwystrau di-ri i'ch baglu. Mis da i deithio. Mae hi'n bwysig eich bod yn cyd- weithio ag eraill nawr. Peidiwch a gor-wario.

CAPRICORN: I fyny bo'r nôd! Anelwch yn uchel nawr ac fe fydd pob peth yn eich gafael - ond gofalwch rhag bod yn fyr-bwyll. Mis hapus i faterion y galon - efallai cewch gyfle i gynnau tân ar hen aelwyd. Gochelwch rhag cael eich twyllo - buddsoddwch yn ddoeth.

AQUARIUS: Mis ardderchog i anelu i gyfeiriadau newydd - yn enwedig yn y gwaith, er efallai y cewch ambell i broblem i gychwyn, ond dyfal barhâd piau hi. Mis ardderchog i gymdeithasu a gweld hên gyfeillion - ac i deithio (tramor efallai).

PISCES: Cadwch lygad barcud ar eich pwrs y mis hwn, mae 'na beryg y byddwch yn gor-wario. Cyfnod ffafriol i hyrwyddo'ch gyrfa. Mae'n bosibl y byddwch nawr yn dechrau newid eich agwedd yn sylweddol tuag at lawer elfen bwysig yn eich bywyd.

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn   RHIF 56




AR DRAWS:

1. (a 4 i lawr) S.L. (yn ôl R.W.P. mewn soned) (1,10,2,3,4)
2. Pentre SN 22 31. (9)
11. Merch yn gwerthu porffor oedd y Cristion cyntaf yn Ewrop. (5)
12. Merch o'r Beibl eto, ond o'r H.D. y tro hwn. (5)
13. Fe gaech olwyn sbâr yma i'w rhoi yn ei lle. (9)
14. Anadl einioes sydd ynddo. (7)
16. Yn dal ar gi gwyllt ac yn barod i dalu'r pwyth. (7)
18. Amod bod yn ben. (3,4)
20. Os câf gynffon, ei docio a wnaf. (7)
21. Esboniodd yn glir iawn, yn wir, yn or-berffaith. (9)
23. Y disglaid o dê a gefais yn y Bala. (5)
24. Rhan o offer y gêm sy'n odli'n ddwbl ag ef. (5)
25. Iawe (gynt). (2,3,4)
26. Gellid dweud hyn wrth Ioseff (a Martin Luther King). (13)

I LAWR:

2. Gallai cynnwrf dwfn dyn o A____ esbonio ei yrru i ffwrdd. (9)
3. Gwaith i rai yn yr iswydd. (5)
4. Gweler 1 ar draws.
5. "A thrwy ei gleisiau ef yr ________ ni" (Eseia) (7)
6. Tâl od i Ann yw'r difyrrwch digynllun. (9)
7. Uniawn a phrydferth. (2,3)
8. Yn hollol annerbyniol, wedi dihysbyddu esgusion? (4,1,3,5)
9. Dymuniad teg i'r briodasferch. (4,2,1,6)
15. Addunedau dwys. (9)
17. Northyn o afon peiswyn! Ardderchog! (9)
19. Pa beth yw helm? Ateb di. (3,4)
20. Gellid meddwl fod y gwarchodydd wedi cael ergyd. (7)
22. Diod gadarn i ran anniben Sancler. (5)
23. Ar hap y trefnwyd iddo ddal ati. (5)

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 55

AR DRAWS: 1. Piciais; 5. Dygymod; 9. Arogiaf; 10. Efrydwr; 11. Tri chynnig i Gymro; 12. Golosg; 14. Sachliain; 17. Mynachlog; 18. Sodlau; 21. Gwneud môr a mynydd; 24. Costied; 25. Mynnais; 26. Nofelydd; 27. Israddol.

I LAWR: 1. Plastig; 2. Croniclwn; 3. Arlwy; 4. Safant; 5. Dreigiau; 6. Gwrthgilio; 7. Madam; 8. Dirboen; 13. Sych-dduwiol; 15. Afluniaidd; 16. Gormodedd; 17. Magu Cŵn; 19. Urddasol; 20. Crymai; 22. Nesaf; 23. Mynor.

CYSTADLEUAETH RHIF 55:
Cynigir tocyn llyfrau Cymraeg am £5 y mis hwn eto. Enw neu ffugenw a chyfeiriad ar ymyl y croesair a'i anfon, os gwelwch yn dda, i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd, erbyn TACHWEDD 14.

---

CYSTADLEUAETH RHIF 55

Derbyniwyd deg ateb cywir. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd eiddo Ifor ap Glyn, 20 Rhodfa Wordsworth, Y Rhâth. Fe fydd tocyn llyfrau am £5 ar ei ffordd iddo gyda hyn.

Y naw cywir ond anlwcus y tro hwn oedd: B.J., Llanrhymni; M.E.D., Llandaf; Prentis, Trelai; J.Lloyd, Ger-y-Llyn; D.T.W., Y Barri; Sioned Penllyn, Y Drenewydd; B.H., Cyncoed; R.Alun a Rhiannon Evans, Bangor; a Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd.


**HYSBYSEBWCH**

**YN Y DINESYDD**


# CRAFU CEFN

CHWARA'N TROI'N CHWERW

DA GWELD FOD Alwyn 'Bags' Gruffydd, trefnydd Adloniant Clwb Cymric, yn cymryd ei waith o ddifri. Gyda'r tymor pêl-droed ond newydd ddechrau bu mor garedig â darparu perfformiad arbennig i'w gyd-chwaraewyr yn ystod gêm ddiweddar yn erbyn Crown Rangers. Yn ôl ei arfer bu'n cega trwy gydol y gêm, ond 'mhen dim trodd y chwara'n chwerw, a bu bron iddo yntau ag un arall o'r chwaraewyr fynd benben â'i gilydd. Yn anffodus, y chwaraewr arall oedd 'Mad Bob' Sanger - aelod o'i dim ei hun!

NEWYDDION SAETHIG!

Yn sgil y strach a achoswyd pan ddarlledwyd y bennod anghywir o'r ddrama gyfres "Dinas", penderfynodd rhai o newyddiadurwyr "Newyddion Saith" ymchwilio i wraidd trafferthion S4C. Wedi hir ymchwilio daethpwyd i'r casgliad mai ar "Sbec", cylchgrawn rhaglenni'r Sianel, oedd y bai. Yn rhifyn yr wythnos honno o "Sbec" cafwyd tystiolaeth ddi-ymwad mai'r cylchgrawn oedd yn gyfrifol am holl broblemau S4C - roedd y manylion ar gyfer rhifyn yr wythnos o "Raglen Hywel Gwynfryn" yn anghywir! Doedd hi ddim tan ar ôl i'r eitem ynghylch y mater gael ei ddarlledu i'r glewion newyddiadurol sylweddoli bod y manylion yn anghywir yn y "Radio Times", y "Western Mail" ac ati. A'r rheswm am y dryswch - newid cynllun anorfod gan uned "Rhaglen Hywel Gwynfryn" sydd a'u swyddfa nid nepell o swyddfa "Newyddion Saith".

ELUSENGAR?

Stori bwysig arall a gafodd sylw hacs y Bib oedd cyngerdd "Teulu Dyn" a gynhaliwyd yn Neuadd Dewi Sant i godi arian i'r trydydd byd. Y cwestiwn tyngedfennol oedd a oedd y technegwyr a fu'n gweithio yno yn derbyn tâl ai peidio? Do, cawsant afael ar y gwir - hanner y gwir. Mae'n wir i staff Barcud gael eu talu, ond mae'n wir hefyd iddynt gyfrannu £200 i gronfa "Teulu Dyn". Tybed faint gyfrannodd staff y BBC yn ystod "Arian Byw" o bafiliwn yr Eisteddfod?

BWRLWM BRO?

Llongyfarchiadau calonog i dim Radur yn eu buddugoliaeth dros bentre Sarnau yng nghystadleuaeth Bwrlwm Bro HTV. Dim ond dau farc oedd ynddi, ond roedd Radur yn llawn haeddu'r fuddugoliaeth - yn enwedig o gofio fod sawl aelod o'r tim yn dod o froydd arall Caerdydd - Llandaf, Rhiwbeina a Sain Ffagan i enwi ond ychydig.

---



RHIFYN NADOLIG

Mi fydd y rhifyn nesaf o'r Dinesydd yn rhifyn Nadolig. Os ydych am gyfrannu apeliwn arnoch i sicrhau bod eich cyfraniadau yn cyrraedd Shan Emlyn mewn da bryd. Oni bai fod deunydd yn ein cyrraedd cyn Tachwedd 21 ni allwn warantu y byddwn yn ei gynnwys.



# LLONGYFARCH

REEVES - PHILLIPS

Mae'n bleser cyhoeddi dyweddiad Seimon John, unig fab Mr. a Mrs.L.J.Reeves, Heol Porthceri, Y Barri, a Fiona, merch Mr. a Mrs.I.T.Phillips, Altringham, Swydd Gaer.

CYMRY YN MENTRO

BREUDDWYD MAIR a Bob Rice yw poblogeiddio gwlad Cymru, a hynny mewn dull soffistegedig. Fore Sadwrn Hydref 26 fe ges i fynd yn enw'r Dinesydd i agoriad swyddogol siop ddillad Castle Woolens, Stryd y Castell. Cefais gipolwg ar ddillad o wneuthuriad cywrain, yn arbrofol ffasiynol heb y ddelwedd hen ffasiwn a gysylltwn yn amal a brethyn cartref.

Agorwyd y siop gan Elinor Jones, hithau'n gwisgo dillad a gynlluniwyd ganddi hi ei hun, ac a wneir gan gwmni sy'n dwyn yr enw "Cymraes". Bydd y dillad yma'n cael eu gwerthu dan y label "Elinor". Y gobaith yw y bydd y farchnad yn ehangu i fod yn fyd eang.

Roedd yr achlysur yn un cwbl ddwyieithog a bwydydd Cymreig blasus wedi cael eu paratoi gan Blas ar Gymru. Llongyfarchwn Mair a Bob Rice ar fentro a dymunwn yn dda iddynt hwy a'r gwneuthurwyr sy'n gysylltiedig a'r fenter. Dyna gyfle i roi enw Cymru ar fap ffasiwn y byd.

Shan Emlyn.

# ENKA

YMDDIHEURIAD

YN Y RHIFYN diwethaf o'r Dinesydd cyhoeddwyd adolygiad gan Iwan Llwyd o'r fideo "Enka" a ddarlledwyd yn ddiweddar ar S4C. Seiliwyd yr adolygiad ar y dybiaeth mai'r un oedd cynnwys y fideo a'r record newydd o'r un enw. Mewn gwirionedd mae'r record yn hwy o dipyn.

Hoffwn bwysleisio mai ar y Dinesydd y mae'r cyfrifoldeb am y dryswch hwn ac nid ar yr adolygydd. Ymddiheuriadau i Iwan, Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr, a Chwmni Recordiau Sain am ein diofalwch.

"ENKA" - Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr
Ochr Un: Carcharorion Riddim; Ti DDim Moyn Fi Nawr; Cenhadon Casineb; Saith Can Mlynedd; Dim Lle I Droi; Paratoi Y Ffordd i Seion.
Ochr Dau: Seiniau Siam; Tra Bo'r Mor; Rho Lan; Can Y Dur; Pam?; Madonna Pêr Y Clêr.
Sain Recordiau Cyf. SAIN1348M
£5.49

YSGOL SUL

AGORWYD CANGEN o Ysgol Sul y Plant, Eglwys Bresbyteraidd Heol y Crwys yn yr Eglwys Newydd yn ystod mis Medi 'leni. Cynhelir yr ysgol Sul am hanner awr wedi dau y prynhawn yng Nghapel y Tabernacl, Heol Merthyr, yr Eglwys Newydd. Mae criw ardderchog o blant yn dod ynghyd a chroesewir aelodau newydd. Os hoffech rhagor o wybodaeth, rhowch alwad i Ruth Stephens (623359).

BETHEL, MAES-Y-DERI

Roedd y "set fawr" a'r pulpud ym Methel, Maes-y-Deri, yn llawn o blant fore Sul 13 Hydref. Plant Rhiwbeina a'r ardaloedd cyfagos ddaeth yno i gynnal eu gwasanaeth diolchgarwch, ac fe ddaethon nhw a'u rhieini efo nhw.

Bu'r paint yn ffyddlon iawn i'r Ysgol Sul ym Methel ers pan symudodd y Wesleaid i Rhiwbeina o'r capel yng nghanol y ddinas, a'r hyn sy'n galonogol yw fod y nifer ar gynnydd. Mae llawer o'r plant gyda'i gilydd yn yr Ysgol Feithrin yn festri Bethel yn ystod yr wythnos, ac mae nhw nawr yn mwynhau cwmni ei gilydd ar foreau Sul hefyd. Ond mae lle i ragor - a'u rhieni, wrth gwrs. Braf fyddai gweld Bethel yn gapel "bro" - eglwys nid yn unig ar gyfer y Wesleaid ond aelodau o bob enwad. Y gweinidog yw'r Parchedig Brychan Hughes, Caerdydd 758258.

CYFLE I WIRFODDOLI YNG NGHYMRU

PRIF DDIBEN y gronfa yw hybu cynlluniau gwirfoddol ym meysydd iechyd, gwaith cymdeithasol, addysg cymuned a datblygiadau cymunedol ynghyd a chefnogi gweithgareddau gwirfoddol yn cynnwys rhai yr ymgymerir a hwy gan bobl ddi-waith.

Dylai cynlluniau fod o fantais uniongyrchol i'r rhai ag anghenion arbennig o fewn y gymuned.

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth grwpiau gwirfoddol a hen grwpiau sy'n ymgymryd a chynlluniau newydd ac am gael grantiau graddfa isel hyd £200 a gantiau graddfa uchel o £15,000.

Am ragor o wybodaeth a ffurflenni cais cysylltwch a'r Ysgrifennydd, Llys Ifor, Crescent Road, Caerffili, Morgannwg Ganol. Ffon: 0222 869224.

TIWTOR PIANO

Gwersi piano gan
Athrawes Graddedig
a phrofiadol yng nherddoriaeth
A.L.C.M; A.Mus.L.C.M; L.T.C.L.

Cysylltir trwy ffonio:
Caerdydd 628765
ar ol 4.30 o'r gloch.

# CYDYMDEIMLAD

BU FARW E. Meurig Williams, y llawfeddyg o Landaf, yng Ngogledd Cymru ar Ddydd Llun 22 Hydref.

Y diwrnod hwnnw, fel un o uwch swyddogion Urdd Sant Ioan, bu'n dadorchuddio plac yn hen Eglwys Pentrefoelas i gofio am hen "hospice" yr Urdd yn Ysbyty Ifan - y ddiahngfa a roddodd ei enw i'r pentref.

Brodor o Gwmdar oedd "Meurig" (ei enw yng Ngorsedd y Beirdd) ac yn ystod ei fywyd derbyniodd Ryddid Bwrdeisdref Aberpennar. Bu ei ddylanwad yn gryf ar ysbyty Tywysog Cymru yn y ddinas ac wedi hynny Rhydlafar. Roedd yn awdurdod ar glefydau'r asgwrn cefn ac fe ddyfeisiodd blat arbennig, y "Meurig Williams fixation plate" ar gyfer trin esgyrn anafus. Ef, hefyd, a gyfieithodd llyfryn Cymorth Cyntaf Urdd Sant Ioan a fu'n werthfawr dros ben yng nghystadleuthau'r Eisteddfod Genedlaethol.

Ef oedd meddyg radio cyntaf y B.B.C. am gyfnod a ddechreuodd ym 1948 ac ar ddydd Gwener, 25 Hydref daeth torf enfawr ynghyd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf i dalu eu teyrnged olaf i'r Cymro disglair a dlymhongar hwn.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn â Glyn Evans, 18 Chargot Road, Llandaf, o golli ei briod annwyl Megan yn frawychus o sydyn yn ddiweddar. Cofiwn hefyd am y teulu agos, Eleri, Ceri yn Frinley, ac Edgar a'i deulu yn Abertawe.

**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**




Argraffwyd gan Fingerprints (TU), Caerdydd. F.P. 1519